

Cyfarfod Grŵp Cynllunio Cyllid a Llywodraeth Leol

Dydd Gwener 4 Chwefror 2022, 1.45pm-3.30pm

Nodiadau

Mynychwyr

- Ben Lloyd, CGGC
- Ruth Marks, CGGC
- Anna Nicholl, CGGC
- David Cook, CGGC
- Phil Fiander, Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio
- Gethin Rhys, Cytûn
- Helene Hayes, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Victoria Lloyd, Age Cymru
- Andrea Cleaver, Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Roxanne Treacy, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
- Catrin James, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
- Paul McDonagh, Llywodraeth Cymru
- Annie Smith, RSPB Cymru
- Iwan Thomas, PLANED
- Rob Simkins, Shelter Cymru
- Janine Downing, Llywodraeth Cymru
- Chris Johnes, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Cofnodion o'r Cyfarfod Gweinidogol mwyaf diweddar

Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y cam gweithredu ynghylch enghreifftiau o'r llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Camau gweithredu:

- *Cysylltu â Rocío parthed cyd-gynhyrchu o ran anfon gwybodaeth am Gydraddoldeb ac Integreiddio at swyddogion.*
- *Annie i anfon dogfen friff parthed y newid yn yr hinsawdd a thryloywder cyllidebau at Dave i'w rhannu â'r grŵp.*
- *Janine ac CGGC i barhau â thrafodaethau parthed gweminar/digwyddiadau eraill ar brosesau cyllidebu Llywodraeth Cymru.*
- *CGGC i gysylltu â Chris Johnes i sicrhau bod enghreifftiau o ymgysylltu rhwng cymunedau a'r sector gwirfoddol yn cael eu hanfon at Paul.*
- *Gweinidog yn bwriadu trafod cydberthnasau'r sector gwirfoddol â'r llywodraeth leol gydag CLILC – Paul i wirio a yw hyn wedi'i wneud.*

Ymgysylltu ynghylch y gyllideb

Amlinellodd Janine yr amserlen ar gyfer cyllidebau drafft, a bod gan Lywodraeth y DU Ddigwyddiad Cyllidol ar 23 Mawrth. Amlygodd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, sy'n disodli Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb.

Amlygodd Annie yr angen am wybodaeth hygyrch a dealladwy am y gyllideb sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch pa Weinidog sy'n gyfrifol am dai cymdeithasol. Dywedodd Janine mai'r Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am hyn.

Nododd y grŵp fod y grŵp Newid Hinsawdd dim ond wedi cwrdd â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd hyd yma, sy'n ei gwneud hi'n anoddach trafod problemau tai gyda Llywodraeth Cymru. Awgrymodd Ben y gallai mudiadau ddefnyddio mecanweithiau materion cyhoeddus eraill ar gyfer hyn, yn hytrach na'r TSPC.

Nodwyd yr argyfwng costau byw fel mater pwysig i'r sector a'r TSPC wrth fynd ymlaen.

Camau gweithredu

- *Cynllunio ar gyfer cyllideb 23/24 i fod ar agenda'r Cyfarfod Gweinidogol nesaf.*
- *Diweddariad gan yr Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio i'w rannu â'r grŵp ar ôl cyfarfod nesaf y Pwyllgor.*

Llywodraeth Leol

Mae'r adroddiad adfer ar ôl COVID wedi'i godi gydag CLILC ac roedd yn eitem yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth. Cytunodd y cyfarfod hwn y dylid cael ffrwd waith sy'n edrych ar sut y gellir gwella'r cydberthnasau rhwng y llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn yr hirdymor.

Dywedodd Anna fod gwaith wedi'i gomisiynu i edrych ar sut gall mudiadau a arweinir gan y gymuned greu newid.

Crybwyllodd Annie effeithiau posibl y Papur Gwyn Codi'r Gwastad. Nododd Ben fod y pwnc hwn yn croesi'r portffolios Cyllid ac Economi.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Teimlai rhai aelodau o'r grŵp nad oedd cysylltiad rhwng y lefelau lleol a rhanbarthol. Nododd Gethin gysylltiadau rhwng y Cydbwyllgorau Corfforaethol a sut y gallent wneud cynnig i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Camau gweithredu

- *CGGC i lunio papur ar gydberthnasau rhanbarthol i'w rannu â'r grŵp/swyddogion.*
- *Phil i ysgrifennu blog am effeithiau gwaith yr Is-bwyllgor erbyn haf 2022.*
- *Edrych ar eitemau pellach ar gyfer cyfarfodydd dilynol gyda'r Gweinidog yn ystod y cyfarfod cynllunio nesaf*

Crynodeb o'r pwyntiau agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf:

1. Proses gyllidebu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Bydd yr eitem hon yn rhoi trosolwg o'r broses gyllidebu a'r cyfleoedd i ymgysylltu. Bydd swyddogion ac CGGC yn gweithio ar y camau gweithredu / chwilio am gyfleoedd i gefnogi ymgysylltu gwell y tu allan i'r cyfarfod. Mae hwn yn gyfle i amlygu Grŵp Cyngori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb Llywodraeth Cymru.

Bydd yr eitem hefyd yn gyfle i'r llywodraeth a'r sector godi unrhyw bwyntiau allweddol yn dilyn cyhoeddiadau cyllideb Llywodraeth y DU a ddisgwyllir ar 23 Mawrth.

2. Diweddariad is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfio'r TSPC

Mae hwn yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd hyn bellach. Diweddariad posibl ar y blaenoriaethau cam nesaf a chyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael cytundebau cyllido 'mwy hirdymor' gyda'r sector.

3. Cydberthnasau rhwng y sector gwirfoddol a chyrrff cyhoeddus

Bydd yr eitem hon yn canolbwyntio ar strwythurau i gael ymgysylltiad rhwng y sector gwirfoddol a strwythurau rhanbarthol. Caiff penderfyniadau ynghylch polisi, darpariaeth a gwariant eu gwneud fwyfwy ar lefel ranbarthol. Gall strwythurau i gefnogi'r gydberthynas â'r sector gwirfoddol a'r ymdrechion i'w gynnwys fod yn wan neu'n absennol yn y strwythurau newydd hyn. Mae'n anodd i fudiadau gwirfoddol gydlynu'r ymgysylltiad gyda'r haen ychwanegol hon, wrth barthau i gynnal ymgysylltiad lleol. Bydd papur yn amlinellu'r prif faterion, cyfleoedd a heriau i ni eu hystyried gyda'n gilydd.

Bydd yr eitem hefyd yn caniatáu i ni gael unrhyw ddiweddariadau ar y ffrwd waith 'cydberthnasau' o dan y TSPC ac, ynghyd â chanfyddiadau o raglenni diweddar, gall ein helpu ni i gryfhau'r cydberthnasau hyn.